Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

18/12/2013

Annwyl Brif Weinidog,

**DOGFEN SAFONAU ARFAETHEDIG AR GYFER Y GYMRAEG**

Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi am ddanfon fersiynau terfynol o'r ddogfen Safonau Arfaethedig ar gyfer y Gymraeg at fy sylw ar 17 Rhagfyr 2013.

Fel y gwyddoch, fy mwriad fel Comisiynydd y Gymraeg yw cychwyn ar y broses statudol o gynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, a hynny i gychwyn ar 27 Ionawr 2014. Wedi i gyfnod yr ymchwiliad safonau ddirwyn i ben, byddaf yn llunio Adroddiad Safonau at sylw Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yr adroddiad safonau hwn yn nodi casgliadau'r ymchwiliad safonau, a rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny.

I'r perwyl hwnnw, dymunaf fynegi fy mhryder ynghylch priodoldeb rhai cyfeiriadau sydd wedi'u cynnwys yng nghyflwyniad y ddogfen y bwriedir eu cyhoeddi. Ymddengys fod y cyfeiriadau dan sylw'n mynd tu hwnt i'r hyn yr amlinellir yn adrannau perthnasol y Mesur, ac yn rhagdybio'r broses statudol sydd yn ofynnol i'r Comisiynydd ei ddilyn o dan Ran 4, Pennod 8 y Mesur. Yn sgil y pryderon yr amlinellir uchod, gofynnaf i chi addasu'r cyfeiriadau dan sylw, fel y bo'n briodol, cyn cyhoeddi'r ddogfen ar eich gwefan yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r set gyntaf o safonau'r Gymraeg yn dynn, ac mae goblygiadau i'r amserlen a gytunwyd rhwng y ddau sefydliad. I'r perwyl hwnnw, buaswn yn ddiolchgar pe byddai modd i chi gadarnhau pryd y bwriedir cyhoeddi'r safonau drafft ar eu ffurf gyhoeddedig ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yr eiddoch yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

cc. **[Enw Swyddog Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth], [Teitl swydd Llywodraeth Cymru - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth]**